# OASIS Sir Fynwy

Gwasanaeth Allgymorth, Cefnogi A Chynhwysiant Awtistiaeth

## Tîm Cefnogi Addysg

**Rachael Roach-Rooke - Athrawes Arweiniol Tîm Cefnogi Addysg**

- Yn meddu ar radd Seicoleg/TAR (Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd)
- Athrawes Ddosbarth/ Athrawes ADY/UDA yn Ysgol Gynradd Parc Ninian, Caerdydd am 10 mlynedd. Roeddwn i wrth fy modd yn gweithio mewn ysgol fawr, amlddiwylliannol yn Grangetown, Caerdydd. Rwy'n ddiolchgar am y cychwyn hwn yn fy ngyrfa fel gweithiwr Addysgol proffesiynol. Roedd 25 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad yn yr ysgol a chanran uchel o ddisgyblion ag ADY. Yn y rôl hon, roeddwn wrth fy modd yn gallu helpu ein disgyblion i oresgyn rhwystrau i ddysgu i'w galluogi i gyflawni eu llawn botensial. Gweithiais ar draws y cyfnod cynradd (Meithrin - Blwyddyn 6)
- Athrawes Ddosbarth/ UDA (arweinydd Cyfnod Sylfaen/Arweinydd Celfyddydau Mynegiannol) yn Ysgol Gynradd Glan Usk , Casnewydd. Roedd Glan Usk yn ysgol arloesol a oedd yn arwain y sector yn natblygiad Cwricwlwm i Gymru.
- Athrawes meithrin arweiniol yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri (2 flynedd).
- Rwyf wedi gweithio ym mhob grŵp blwyddyn ar draws y cyfnod addysg gynradd ac wedi cefnogi disgyblion yn yr ysgol uwchradd fel Seicolegydd Addysg Cynorthwyol.
- Seicolegydd Addysg Cynorthwyol/swyddog ALI (Awdurdod Lleol Caerffili). O fewn y rôl hon, cyd-gynhyrchais becyn cymorth ailintegreiddio Caerffili a ddefnyddir gan bob ysgol ar ddulliau arfer gorau ar gyfer cefnogi disgyblion sy'n Osgoi Ysgol ar Sail Anghenion Emosiynol (EBSA). Darparais hefyd hyfforddiant EBSA i holl ysgolion Caerffili a chefnogais yn uniongyrchol ddisgyblion a oedd yn profi EBSA. Yn y rôl hon, mwynheais gydweithio ar bapur ymchwil gyda chydweithwyr.
- Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref / Cydlynydd ADY / Swyddog ALI ar gyfer ALI Caerffili (swydd blwyddyn)
- Rhiant sy'n mabwysiadu
- Rhiant ADY
- Diploma Ymarferydd Iechyd Meddwl wedi'i lywio gan drawma (2023)
- Hyfforddiant cymorth Ymddygiad Cadarnhaol (2024)
- Rhan o dîm prosiect Sir Fynwy, Awtistiaeth mewn Ysgolion a lleoliadau
- Yn falch o fod yn Athrawes Arweiniol tîm Cymorth Addysg Cyngor Sir Fynwy ers 2022. Rwyf wrth fy modd â lle rwy'n byw ac yn gweithio.

***Rwy'n caru fy swydd oherwydd ….***

- Credaf, gyda chymorth staff ysgol, ein bod yn gwneud gwahaniaeth enfawr i les a chanlyniadau addysgol y disgyblion yr ydym yn eu cefnogi.
- Mae pob diwrnod yn wahanol, ond rydym yn rhagweithiol ac yn adweithiol yn ein cefnogaeth i ysgolion
- Rwy'n angerddol am wneud gwahaniaeth i'n dysgwyr bregus.

- Rydym yn rhan o daith addysgiadol i bob plentyn yr ydym yn ei gefnogi
- Gallaf weithio gyda staff ysbrydoledig, ymroddedig, gofalgar yn ysgolion CSF ac o fewn yr ALI.

*Rwy'n angerddol am….*

- Helpu ein dysgwyr i deimlo'n ddiogel i ddysgu, tyfu a llwyddo.
- Cofleidio amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant.
- Gwella lefelau lles a deilliannau addysgol disgyblion sy'n profi rhwystrau i ddysgu.
- Sicrhau bod disgyblion ag ADY yn cyflawni eu llawn botensial
- Ein dysgwyr yn cael mynediad i addysg yn y gymuned y maent yn byw ynddi lle bo modd.

*Dwi ar fy hapusaf pan….*

Rwy'n gweld ein plant a'n pobl ifanc yn ffynnu.

Rydw i gyda fy nheulu a ffrindiau hyfryd yn archwilio mynyddoedd a thraethau ac yn mynd ar anturiaethau newydd. Rwyf wrth fy modd yn teithio yn enwedig ar longau mordaith.

Rwy'n dysgu sgiliau newydd. Rwy'n hoffi dysgu a gwella fy set sgiliau yn barhaus.

Rwy'n bwyta bwyd da.

Rwy'n canu, yn dawnsio, yn chwarae fy sacsoffon neu'n ymwneud ag unrhyw beth sy'n ymwneud â theatr gerdd.

*Mae pobl yn aml yn fy nisgrifio fel ….*

Gwybodus ac angerddol am gynhwysiant i bawb.

Mae fy nheulu yn dweud bod gen i galon fawr, rwy'n garedig ond yn gallu bod braidd yn 'bossy' weithiau!!

Agored, gonest a dibynadwy.

Mae rhai pobl yn disgrifio fi fel doniol. Credaf fod gen i synnwyr digrifwch da.

*Rwyf bob amser yn ceisio bod yn ….*

Caredig a'n gosod esiampl dda. Rwy'n hoffi sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn cael cyfle cyfartal.

Y gorau y gallaf fod.